# Egwyddorion Deallusrwydd Artiffisial (AI)

Wrth i ddeallusrwydd artiffisial (AI) ddod yn fwy cyffredin yn fyd-eang, mae’n procio cwestiynau pwysig am y rôl y dylai chwarae ym mywydau pobl a sut y caiff ei ddefnyddio yn gyfrifol ac yn foesegol. I fynd i’r afael â’r cwestiynau hyn, rydym ni yng Nghronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol wedi diffinio ein cyfres ein hunain o egwyddorion AI i ddangos ei hymrwymiad i ddefnyddio AI er budd pobl a chymunedau.

Mae gan dwf AI'r potensial i gael effaith sylweddol ar y ffordd rydym ni’n gweithio. Rydym yn gobeithio y bydd mabwysiadu, datblygu a defnyddio AI yn ein helpu i wneud y gorau o dalentau ein pobl a’r cymunedau rydym yn gweithio gyda nhw. Rydym wedi dod â phobl ar draws ein sefydliad ynghyd, a, gyda chefnogaeth arbenigwyr allanol, wedi datblygu’r egwyddorion hyn sydd wedi eu gwreiddio’n ddwfn yng ngwerthoedd ein sefydliad. Rydym yn gobeithio y byddent hefyd yn cefnogi eraill yn y sectorau gwirfoddol a chymunedol i ddeall eu taith eu hunain gydag AI.

## Ein 10 egwyddor ar ddeallusrwydd artiffisial (AI)

Mae ein gwaith yn dechrau gyda chymunedau ac felly rydym eisiau defnyddio AI fel adnodd i helpu i ysgogi gwybodaeth, arbenigedd ac ymrwymiad pobl, yn ein sefydliad ac yn y cymunedau rydym yn eu cefnogi:

1. Sicrhau fod **AI yn gweithio i bobl**. Galluogi ein pobl i wneud y gwaith sy’n unigryw i fodau dynol ac y maen nhw’n rhagori arno, a dylunio AI i bwysleisio’r cryfderau hyn.
2. Rhaid sicrhau **fod pobl yn gwybod beth sy’n digwydd** er mwyn sicrhau bod ein hadnoddau AI yn gweithredu’n ddiogel ac mewn modd addas i’r pwrpas a fwriedir.
3. Sicrhau fod pobl â’r holl wybodaeth y maen nhw ei angen a’n bod yn parhau i fod yn **atebol** am yr holl waith a wnawn pan ddefnyddiwn AI.
4. **Rhannu ein dysgu,** y llwyddiannau a’r methiannau, o’r arbrofion bychain, diogel a redwn yn gyfrifol.
5. Sicrhau fod ein defnydd o dechnolegau AI yn **gynhwysol**, yn osgoi gwahaniaethu a niwed a phryd bynnag fo’n bosibl, yn arwain at ganlyniadau teg.
6. O fudd i’n staff a’n cwsmeriaid trwy gyflawni **prosesau’n fwy effeithlon ac effeithiol.**
7. Monitro’r defnydd o AI a’i effeithiau – gwybod pa bryd y mae o fudd i bobl a chymunedau a **gwybod pa bryd i beidio â’i ddefnyddio.**
8. Deall y rhyng-gysylltiad rhwng cymunedau a’r amgylchedd ac felly defnyddio AI pan fo’n **ystyrlon**, wedi’i dargedu ac yn cefnogi newid cadarnhaol yn unig.
9. Arddangos **tryloywder** yn y ffordd rydym yn defnyddio AI, yn fewnol ac yn allanol. Sicrhau ein bod yn cadw gwybodaeth am beth rydym wedi ei ddatblygu o ran AI a sut, fel y gallwn ei addasu wrth i ni fynd yn ein blaenau a rhannu’r dechnoleg pan fo’n bosibl.

10. Diogelu **preifatrwydd** ein holl randdeiliaid, staff a chwsmeriaid. Byddwn bob amser yn cymhwyso preifatrwydd a diogelwch trwy ddyluniad er mwyn diogelu data personol, perchenegol a chyfrinachol.



Ochr yn ochr â'r egwyddorion penodol hyn, byddwn yn sicrhau fod ein holl waith gydag AI yn cadw at y deddfwriaethau a'r gofynion cydymffurfio perthnasol, yn ogystal ag arferion gorau'r diwydiant ar gyfer AI, gan gynnwys rheoli risg, llywodraethu, preifatrwydd, diogelwch a GDPR, er enghraifft:

- Byddwn yn monitro ein holl adnoddau AI am wendidau i sicrhau eu diogelwch a chadernid parhaus.
- Dim ond y data sy'n angenrheidiol i systemau AI y byddwn yn ei gasglu gan sicrhau y caiff ei storio'n ddiogel, gan ddilyn Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol y DU (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018 a deddfwriaeth diogelu data perthnasol arall.
- Pan fo'n berthnasol, sicrhau caniatâd clir a gwybodus gan ddefnyddwyr cyn i'w data nhw gael ei ddefnyddio gan systemau AI.

Mae'r byd AI yn newid yn gyflym ac felly rydym yn ymrwymedig i adolygu'r egwyddorion hyn pan fo angen a'u diweddaru bob chwarter, neu'n amlach os yw'n gwaith yn awgrymu bod angen hynny.
Rydym yn gwybod na fydd yr egwyddorion hyn yn berffaith a bod llawer o grwpiau cymunedol a sefydliadau yn meddwl ynghylch y materion hyn. Byddem yn gwerthfawrogi sgwrs onest i helpu i ddatblygu ac addasu'r egwyddorion hyn yn unol â'n dysgu ar draws y sector.